# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 18 a 25 Mai 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfyngiadau cyflymder yn Rhydaman yng nghyd-destun y nifer o ddamweiniau a fu yn yr ardal honno'n ddiweddar? (WAQ46603)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 13 Ebrill 2006.*

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Erbyn hyn yr wyf wedi cael y data am ddamweiniau a ddigwyddodd dros y tair blynedd rhwng 1 Mawrth 2003 a 28 Chwefror 2006 rhwng Pont-y-Clerc a Brynmarlais ar yr A483 (tua 3 km). Mae'r data'n deillio o ystadegau'r heddlu ac maent yn dangos y canlynol:

19 o ddamweiniau i gyd, 18 lle cafwyd mân anafiadau ac un lle cafwyd anaf difrifol

mewn un ddamwain cafodd cerddwr ar y droetffordd ei daro gan gar yn bacio o ale

yr oedd dwy ddamwain yn cynnwys cerddwyr a oedd wedi meddwi

digwyddodd 12 damwain ar gyffyrdd

mewn dwy ddamwain yr oedd gyrwyr yn gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad 30 mya.

Fel y gwelwch, mae’r rhan fwyaf o’r damweiniau wedi digwydd ar gyffyrdd ac mae’r ystadegau’n dangos bod y mwyafrif wedi digwydd ar gyflymder isel. Mae cyfyngiad cyflymder 30 mya ar yr A483 drwy Rydaman ond mae’n ymddangos nad yw cyflymder yn ffactor yn gyffredinol yn y damweiniau sy’n digwydd.

Pe baech am gael copi o’r cynllun sy’n dangos lleoliad y damweiniau ynghyd â’r data ategol gallaf drefnu i’r rhain gael eu hanfon atoch gan fy swyddogion yn Trafnidiaeth Cymru.

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod Cymru: Economi yn Ffynnu wedi bod yn destun asesiad amgylcheddol strategol ac a wnaiff ddarparu’r adroddiad i’r cyhoedd? (WAQ46859)

**Andrew Davies:** Nid yw Cyfarwyddeb 2001/42/EC am asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd yn gymwys i gynllun neu raglen nad yw’n ofynnol yn ôl darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol. Nid yw Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn gymwys iddynt ychwaith. Nid oedd datblygu ‘Cymru: Economi yn Ffynnu’ yn ofynnol yn ôl darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol na gweinyddol, ac nid oedd gofyn cynnal asesiad amgylcheddol strategol. Mae’r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn cynnal asesiadau amgylcheddol o’i rhaglenni. Mae’r strategaeth drafnidiaeth, gan ei bod yn ofynnol drwy statud, yn ddarostyngedig i asesiad amgylcheddol strategol.

**Brynle Williams:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael ynghylch cyflwyno tystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau masnachol yng Nghymru? (WAQ46868)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi bod â rhan mewn trafodaethau am gyflwyno tystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau masnachol hyd yma. Nid yw’r gyfarwyddeb am berfformiad ynni sy’n gwneud y tystysgrifau hyn yn ofynnol yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli. Mae mesurau’r gyfarwyddeb yn cael eu gweithredu yng Nghymru a Lloegr drwy’r rheoliadau adeiladu, nad ydynt ychwaith wedi cael eu datganoli, a dônt o fewn portffolio Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae swyddogion y Cynulliad yn mynychu’r Pwyllgor Cynghori ar y Rheoliadau Adeiladu, sy’n ystyried datblygiad y rheoliadau adeiladu, ac maent wedi bod â rhan yng ngrwp llywio Llywodraeth y Cynulliad sy’n delio â rhan L o’r gyfarwyddeb am berfformiad ynni adeiladau.

Mae Ymddiriedolaeth Garbon Cymru, a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynorthwyo busnesau i wella perfformiad ynni adeiladau yng Nghymru. Mae wedi trefnu seminarau am ran L cyfarwyddeb yr UE am berfformiad ynni adeiladau yn y Gogledd a’r De i roi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol ym maes adeiladu ac i’w cynorthwyo i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth. Mae wedi bod yn gweithio hefyd fel ymgynghorydd ar gynllun ailgodi canolfan hamdden Abertawe a phencadlys heddlu gogledd Cymru o dan y cynllun hybu adeiladau carbon isel, yn darparu arbenigedd wrth

ailwampio effeithlonrwydd ynni’r adeiladau hynny.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Jonathan Morgan:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cynnal gyda swyddogion yng Nghyngor Sir Caerdydd yn dilyn penderfyniad y cyngor i beidio â mabwysiadu’r ddogfen Ysgolion y 21ain Ganrif? (WAQ46895)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Nid wyf wedi cael trafodaethau o’r fath.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Cyngor Sir Caerdydd yn ddiweddar i beidio â mabwysiadu dogfen ad-drefnu ysgolion yr 21ain ganrif? (WAQ46896)

**Jane Davidson:** Mater i’r awdurdod lleol yw penderfynu sut i symud ymlaen. Mae awdurdod addysg lleol Caerdydd wedi nodi angen i fynd i’r afael â’r nifer ormodol o leoedd a sicrhau buddsoddi effeithiol mewn adeiladau ysgolion a mater iddo ef yw cynllunio i wneud hynny.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel dyledion myfyrwyr yng Nghymru? (WAQ46897)

**Jane Davidson:** Cafodd arolwg incwm a gwariant myfyrwyr 2004-05 ei chwyddo fel bod modd dadansoddi incwm a gwariant myfyrwyr sy’n byw yng Nghymru am y tro cyntaf. Amcangyfrifai’r arolwg fod y lefel ddisgwyliedig o ddyled i fyfyrwyr amser llawn o Gymru ar eu blwyddyn olaf oddeutu £7,650 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Yr oedd maint y sampl yn dal i fod yn rhy fach i roi amcangyfrif cadarn am fyfyrwyr rhan-amser. Fodd bynnag, mae’r ffigurau’n awgrymu eu bod yn well eu byd na’r cymheiriaid amser llawn a’u bod, yn wir, yn gorffen y flwyddyn academaidd mewn credyd, gyda’u cynilion yn fwy na’u benthyciadau.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg? (WAQ46898)

**Jane Davidson:** Mater i bob awdurdod addysg lleol yw cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a sicrhau bod digon o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fodloni'r galw yn lleol. Lle mae cynnydd yn y galw, weithiau gall ysgolion ehangu'r adeiladau i wneud lle i ddisgyblion ychwanegol, a gallai hynny olygu bod yn rhaid cyflwyno cynigion statudol. Os canfyddir bod angen ysgol newydd, rhaid wrth gynigion statudol. Rhaid ymgynghori'n llawn am bob cynnig statudol.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg alwedigaethol yn Nwyrain De Cymru? (WAQ46899)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi addysg alwedigaethol yng Nghymru yn gryf a phenodais hyrwyddwr sgiliau galwedigaethol yn 2005. Drwy amryw o gynlluniau yr wyf wedi bod yn ceisio annog a datblygu darpariaeth alwedigaethol. Ym mis Tachwedd 2005, cynhyrchodd fy Nirprwy Weinidog, Christine Chapman AC, adroddiad yn cyflwyno ei hargymhellion ar dywys y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19 yn ei blaen. Yn dilyn hynny cynhyrchwyd cynllun gweithredu ym mis Mawrth 2006.

Nod y cynllun gweithredu yw ymgysylltu â phobl ifanc yn ddiwahân a'u symbylu yn eu haddysg a'u hyfforddiant, annog ein pobl ifanc i ymwneud â dysgu gydol oes a darparu'r cwricwlwm modern a'r amrywiaeth eang o gyfleoedd y mae ar bawb o'n pobl ifanc eu hangen. Mae hyn yn golygu, yn ychwanegol at gymwysterau presennol fel TGAU, Safon UG a Safon Uwch, fod angen darparu amrediad llawer ehangach o gyrsiau a chymwysterau galwedigaethol.

Er mwyn sefydlu llwybrau dilyniant clir drwy addysg a hyfforddiant 14-19 i mewn i gyflogaeth, prentisiaethau, addysg bellach ac addysg uwch, dywed y cynllun gweithredu y dylai Llywodraeth y Cynulliad, yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu a'r cynghorau sgiliau sector, ystyried sut mae modd datblygu ac ychwanegu at y cymwysterau galwedigaethol presennol i bobl ifanc 14 i 16 ac 16 i 19 oed er mwyn darparu elfen gref o gymwysterau galwedigaethol yn y Llwybrau Dysgu.

Bydd y ddewislen opsiynau yn golygu, dros amser, y bydd rhwydweithiau 14 i 19 yn datblygu dewis o opsiynau galwedigaethol o lefel mynediad hyd at lefel 4. Bydd y rhain ym meysydd mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg, rheolaeth a gweinyddiaeth busnes, gwasanaethau i bobl, y celfyddydau creadigol a diwylliant a'r dyniaethau ac ieithoedd.

Cafodd rhaglen bagloriaeth Cymru ei chynllunio'n benodol fel bod modd cynnwys cymwysterau galwedigaethol.

Mae fy adran yn aelod gweithgar o dîm rhaglen Blaenau'r Cymoedd ac o grwp llywio rhaglen Blaenau'r Cymoedd ac mae wedi cyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu'r strategaeth ar gyfer yr isranbarth. Un o amcanion allweddol y rhaglen yw

sicrhau bod yr ystod lawn o gyfleoedd galwedigaethol ac academaidd ar gael i bobl ifanc, yn amrywio o gyflwyno Bagloriaeth Cymru hyd at ddatblygu (mewn partneriaeth â chynghorau sgiliau sector a chyrff eraill) ffyrdd arloesol ac ysgogol i gysylltu busnesau yn well ag addysg.

Mae pob rhwydwaith ardal leol 14-19 wedi cynnwys addysg alwedigaethol yn ei gynllun datblygu rhwydwaith blynyddol ar gyfer 2006-07. Mewn llawer o achosion mae hyn wedi golygu llwybrau galwedigaethol newydd gyda phartneriaethau'n cael eu ffurfio rhwng ysgolion, sefydliadau AB a/neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae rhai rhwydweithiau ardal leol yn bwriadu defnyddio eu dyraniad cyfalaf i ailwampio canolfannau sgiliau galwedigaethol neu godi canolfannau newydd ar gyfer y grwp oedran hwn. Gan fod sgiliau ar gyfer yr amgylchedd adeiledig yn flaenoriaeth yn ne-ddwyrain Cymru, mae'r mwyafrif o gynlluniau datblygu rhwydwaith blynyddol yn rhoi sylw i'r mater hwn. Mae'n ofynnol i bob rhwydwaith ardal leol gynnwys addysg gysylltiedig â gwaith yn ei gynllun datblygu rhwydwaith blynyddol.

Mae'r cynlluniau braenaru daearyddol ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf wedi amlygu'r rheidrwydd i gynyddu'r ddarpariaeth alwedigaethol a gynigir i'r grwp oedran 16 i 19 oed. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cydnabod hyn ac maent yn gweithio tuag at ateb a fydd yn ymateb i'r her.

Mae grwp penaethiaid colegau grwp de-ddwyrain Cymru wedi cael y dasg o ganfod ffyrdd newydd o ateb y galw blynyddol, a nodwyd gan CITB-Sgiliau Adeiladu, am 2,220 o newydd-ddyfodiaid medrus newydd i'r diwydiant yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r sefydliadau addysg bellach wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth benodol, fanwl am y ddarpariaeth sgiliau adeiladu er mwyn gwella'r cynllunio ar gyfer y sector hwn, i ddrafftio ymateb rhanbarthol ar y cyd i'r galw a nodwyd ac i gynyddu eu darpariaeth eu hunain o ran sgiliau adeiladu. Mae gwaith cyffelyb ar y gweill gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae'r cynllun yn cael ei yrru gan ranbarth LND yr Adran Addysg, Dysgu a Sgiliau mewn ymgynghoriad â CITB-Sgiliau Adeiladu a chynghorau sgiliau sector priodol eraill. Mae model i sicrhau bod y cyflenwad yn cyfateb i'r galw am sgiliau yn cael ei ddatblygu a byddai modd ei gyflwyno mewn sectorau blaenoriaeth eraill yn y dyfodol.

Yn dilyn y cyhoeddiad fod y GNVQ sylfaen a chanolradd yn cael eu tynnu'n ôl, mae ystod o ddarpariaeth amgen addas wedi cael ei nodi ac mae ar gael i'w dysgu i ysgolion yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei grwpio i 14 o feysydd pwnc ac mae ar gael ar lefel 1 a lefel 2. Mae llawer o'r ddarpariaeth wedi cael ei chymeradwyo o dan adrannau 96 a 97 i gael ei defnyddio cyn- ac ôl-16.

Wrth ddatblygu'r fframwaith credydau a chymwysterau i Gymru, mae ysgol uwchradd o dde-ddwyrain Cymru wedi bod yn rhan o brosiect peilot llawn dychymyg i ddatblygu rhaglen ddysgu alwedigaethol eang ei sylfaen i'w disgyblion, gan ddefnyddio fframwaith credydau a chymwysterau Cymru i gydnabod y llwyddiant hwnnw.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae polisïau addysg yng Nghymru'n

adlewyrchu’r gostyngiad yn niferoedd disgyblion ysgol? (WAQ46900)

**Jane Davidson:** Bydd y gostyngiad yn y boblogaeth ysgol yn arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion mewn rhai ysgolion. Os bydd nifer y disgyblion yn gostwng yn sylweddol ac na chymerir camau i ad-drefnu’r ddarpariaeth, gallai hynny effeithio’n andwyol ar ganlyniadau addysgol gan y bydd ysgolion yn mynd yn llai cost effeithiol i’w cynnal. Mae angen i’r awdurdodau lleol adolygu eu cyflenwad o leoedd ysgol a dosbarthiad y lleoedd hynny’n gyson a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o’r cyllid sydd ar gael ar gyfer addysg. Atgoffir AALlau am hyn yng nghylchlythyr 23/02—cynigion ad-drefnu ysgolion.

**Carl Sargeant:** Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau y gwrandewir ar farn plant a phobl ifanc wrth lunio polisïau addysg? (WAQ46902)

**Jane Davidson:** Yr ydym wedi gwneud ymrwymiad y bydd cynghorau ysgolion yn cael eu sefydlu ym mhob ysgol iau, uwchradd ac arbennig erbyn mis Tachwedd 2006. Mae cynghorau ysgolion yn galluogi disgyblion i drafod materion yn yr ysgol neu’r gymuned leol sydd o ddiddordeb iddynt neu’n peri pryder iddynt. Maent hefyd yn fforwm sy’n fodd i ddisgyblion leisio barn am bolisi addysg ehangach. Mae ein prosiect cymorth i gynghorau ysgol yn darparu hyfforddiant a deunyddiau canllaw i holl staff a disgyblion ysgolion i wneud yn siwr fod y cynghorau yn gallu mynd i’r afael â materion cenedlaethol o bwys. Bydd y prosiect hefyd yn darparu rhwydwaith o bobl ifanc a fydd yn gallu cyfrannu tuag at ddatblygu polisi addysg.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio gyda fforymau ieuenctid, mudiadau ieuenctid yn y sector gwirfoddol a grwpiau eraill i bobl ifanc, yn cynnwys y rhai sy’n cynrychioli pobl ifanc o grwpiau ‘anodd i’w cyrraedd’, er mwyn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o lunio polisi yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein prosiect ‘Eich Llais, Eich Dewis’ yn darparu hyfforddiant i bobl ifanc ar hyd a lled Cymru ar bynciau fel ymgynghori a datblygu polisi er mwyn i blant a phobl ifanc allu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon ac ar sail gwybodaeth.

Mae’r Ddraig Ffynci, y cynlluniad i blant a phobl ifanc yng Nghymru, hefyd yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i gyfrannu at bolisi addysg. Mae seddau penodol ar gael ar yr Uwch-Gyngor i bobl ifanc o ysgolion i leisio eu barn ar lefel genedlaethol.

I ddod â hyn i gyd ynghyd mae prosiect cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn codi ymwybyddiaeth ac yn darparu cymorth i adrannau a swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys addysg am bwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwaith datblygu polisi yn ogystal â manteision gwneud hynny. Mae’r tîm cyfleoedd dysgu i bobl ifanc ac oedolion yn rhoi cyngor ar sut mae cynnwys plant a phobl ifanc mewn ffyrdd priodol a hefyd yn rhoi cyngor ar sut mae cynhyrchu dogfennau sy’n hygyrch i bobl ifanc ac yn ddiddorol iddynt.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o arian a werir gan gynghorau lleol yng Nghymru ar wella adeiladau ysgolion? (WAQ46903)

**Jane Davidson:** Yr oedd y ffigur alldro a gyhoeddwyd am wariant cyfalaf yr awdurdodau lleol drwyddo draw ar addysg yn 2004-05 yn £143.758 miliwn ac mae'r rhagolwg ar gyfer 2005-06 yn £169.248 miliwn.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni amcan datganedig Llywodraeth Cynulliad Cymru o wneud pob ysgol yn addas i'r pwrpas erbyn 2010? (WAQ46905)

**Jane Davidson:** Mae cynnydd da'n cael ei wneud yn gwella adeiladau ysgolion. Er 2002, mae 1,400 o brosiectau wedi cael grant gwella adeiladau ysgolion gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys 66 yn costio dros £0.5 miliwn. Mae 89 o brosiectau yn costio £190 miliwn wedi cael eu cymeradwyo'n ddiweddar gan ddefnyddio cyfrannau cyfandaliad £9 miliwn yr awdurdodau. Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion wedi cynyddu i £143 miliwn yn 2005-06 a rhoddwyd addewid y bydd yn para ar y lefel hon o leiaf yn flynyddol tan 2010.

Yr ydym yn cyflawni ein hymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well' i fuddsoddi £560 miliwn dros oes y Cynulliad hwn i wella adeiladau ysgolion fel eu bod mewn cyflwr da yn adeileddol ac yn addas ar gyfer y cwricwlwm modern. Mae'r buddsoddiad llawn a gaiff ei gynnal gan y Cynulliad yn y cyfnod rhwng 2004-05 a 2007-08 yn £629.372 miliwn.

Byddaf yn rhoi adroddiad llawn i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y sefyllfa yn gynnar ym mis Gorffennaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer unrhyw symiau ychwanegol yng nghyllideb Cymru ac eithrio cyllid yr UE a'r grant bloc ar gyfer y blynyddoedd: 19990-00; 2000-01; 2001-02; 2002-03; 2003-04 a 2004-05? (WAQ45256)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yn ychwanegol at gyllid yr UE a'r grant bloc, mae cyfanswm gwariant-a-reolir y Cynulliad yn cynnwys derbyniadau a gwariant a reolir yn flynyddol fel a ganlyn:

| | Derbyniadau | Gwariant a Reolir yn Flynyddol |
|---|---|---|
| 1999-2000 | £74 miliwn | £185 miliwn |
| 2000-01 | 77 miliwn | £188 miliwn |
| 2001-02 | £99 miliwn | £601 miliwn |
| 2002-03 | £221 miliwn | £606 miliwn |
| 2003-04 | £177 miliwn | £621 miliwn |
| 2004-05 | £176 miliwn | £371 miliwn * |

*Mae’r ddarpariaeth gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer 2004-05 wedi gostwng am fod elfen ad-daliadau rhent cymhorthdal y cyfrif refeniw tai wedi cael ei throsglwyddo i’r Adran Gwaith a Phensiynau, sy’n gyfrifol erbyn hyn am dalu’r cymhorthdal sy’n ddyledus mewn perthynas ag ad-daliadau rhent tai cyngor.

**David Lloyd:** Yn dilyn WAQ40704; a wnaiff y Gweinidog restru’r awdurdodau hynny nad ydynt eto wedi taro cydbwysedd gwleidyddol gyda chadeiryddion craffu a phwyllgorau craffu? (WAQ46878)

**Sue Essex:** Nid yw cynnal rhestr o gydbwysedd gwleidyddol cadeiryddion craffu a phwyllgorau craffu awdurdodau lleol yn swyddogaeth statudol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae’r awdurdodau lleol yn ymwybodol fy mod o blaid dyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu yn unol â chydbwysedd gwleidyddol ac mae’r neges hon yn cael ei hatgyfnerthu yng nghanllawiau statudol y Cynulliad, ‘Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements’, sy’n cael eu diweddaru. Yr oedd hwn hefyd yn un o’r argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus am strwythurau gwleidyddol newydd mewn llywodraeth leol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2004. Ar gais y pwyllgor, cytunais i ddarparu nodyn i’r Aelodau am arweinyddiaeth wleidyddol yr holl awdurdodau lleol ac ymlyniad gwleidyddol eu pwyllgorau craffu. Cafodd y nodyn hwn ei anfon at gadeirydd y pwyllgor ar 14 Tachwedd 2005.

**Dai Lloyd:** Yn dilyn WAQ40704; a wnaiff y Gweinidog ddarparu adroddiad cynnydd am yr arweiniad statudol diwygiedig a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch cydbwysedd

gwleidyddol mewn llywodraeth leol? (WAQ46879)

**Sue Essex:** Mae'r ymgynghoriad ynghylch y canllawiau statudol diwygiedig, 'Guidance for County and County Borough Councils on Executive and Alternative Arrangements', wedi dod i ben a byddaf yn ystyried yr ymatebion yn fuan. Mae'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ymysg cadeiryddion trosolwg a chraffu yn cael ei diogelu yn y canllawiau a gobeithiaf fod mewn sefyllfa i gyhoeddi'r canllawiau maes o law. Yn ychwanegol, bydd yr ymchwil yr ydym wedi ei gomisiynu i rôl a swyddogaethau aelodau etholedig, sydd i fod i ddechrau ym mis Gorffennaf, yn adolygu'r ffordd y mae'r drefn graffu, yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cadeiryddion craffu, yn gweithio ar hyn o bryd.

**Dai Lloyd:** Yn dilyn WAQ40704; a wnaiff y Gweinidog ddarparu adroddiad cynnydd am yr ymgynghoriad ynghylch cydbwysedd gwleidyddol mewn llywodraeth leol? (WAQ46880)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cymryd eich bod yn cyfeirio at yr ymarferiad ymgynghori yn ymdrin â diwygio'r canllawiau statudol i awdurdodau lleol, o dan y teitl 'Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements'. Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi i WAQ46879.

**Alun Ffred Jones:** Pryd fydd y Gweinidog yn cyfarfod â Gweinidogion San Steffan nesaf i drafod newidiadau posibl i'r system etholiadol? (WAQ46889) [W]

**Sue Essex:** Os ydych yn cyfeirio at y newidiadau arfaethedig i broses etholiadau'r Cynulliad, caiff y darpariaethau hynny eu cynnwys ym Mesur Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei dywys drwy Dy'r Cyffredin gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i gydweithwyr.

Os yw eich cwestiwn yn cyfeirio at drefniadau'r etholiadau lleol, mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i adolygu trefniadau etholiadol cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn rheolaidd. Yr wyf wedi gofyn i'r comisiwn ystyried gohirio'r broses nes ar ôl etholiadau lleol 2008 ond nid wyf wedi ystyried unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol cyfredol.

Nid wyf yn bwriadu cyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth y DU i drafod y materion hyn.

Byddwch yn ymwybodol bod y Cynulliad wedi cymeradwyo cynnig mewn Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr mewn cysylltiad â'r Mesur Gweinyddu Etholiadol. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'w hysbysu o gynnwys y cynnig hwnnw, a oedd yn cynnig sawl newid i'r Mesur.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau’r llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion? (WAQ46890) [W]

**Sue Essex**: Gwella gwasanaethau cyhoeddus yw prif flaenoriaeth y Llywodraeth hon yng Ngheredigion fel ym mhob rhan arall o Gymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad am weld sefydliadau’n cydweithio’n llawer agosach â’i gilydd er mwyn creu trefniadau cyflwyno gwasanaeth sy’n ymateb i ddinasyddion a chymunedau. Bydd hyn yn gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon a hygyrch i bawb sydd eu hangen a bydd yn gwella manteision y buddsoddiad sylweddol uwch rydym wedi’i roi i wasanaethau cyhoeddus.

Amlinellwyd ein gweledigaeth ar gyfer cyflawni hyn yn ‘Creu’r Cysylltiadau’, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2004. Dilynwyd hyn ym mis Mehefin 2005 gan ‘Cyflawni’r Cysylltiadau’, sef y cynllun gweithredu pum mlynedd ar gyfer bwrw ymlaen â’r newidiadau rydym eisiau eu gweld o ran cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Bydd canfyddiadau’r adolygiad sydd ar y gweill o gyflwyno gwasanaethau lleol yn llywio hynt ein gwaith ymhellach.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd ar y dreth gyngor er 1999? (WAQ46891) [W]

**Sue Essex:** Y cynnydd blynyddol ar gyfartaledd ym mand D y dreth gyngor ers 1999-2000 yw 6.9 y cant. Y cynnydd am eleni, sef 4.5 y cant, yw’r cynnydd isaf ond un ers cyflwyno’r dreth gyngor, ac ar £962 mae’n £306 yn is na’r cyfartaledd ym mand D y dreth gyngor yn Lloegr.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Karen Sinclair:** Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i wella darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru? (WAQ46871)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Yr wyf yn:

> gwella’r fframwaith polisi—byddaf yn ymgynghori ym mis Gorffennaf am bapur polisi sy’n trafod cyfeiriad y gwasanaethau cymdeithasol i’r dyfodol am y degawd nesaf;
>
> darparu mwy o gymorth cyfalaf a refeniw er mwyn ehangu ystod ac ansawdd y gwasanaethau;

cynyddu gallu'r awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol i wella, comisiynu a chydweithio drwy gyllido'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol;

cymryd camau eraill i gryfhau partneriaethau lleol;

gyrru safonau i fyny a helpu pobl sy'n agored i niwed drwy reoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol sy'n cael eu gorfodi a'u harolygu'n annibynnol;

gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac eraill i wella statws a chymwysterau'r gweithlu gofal cymdeithasol;

drwy Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yr wyf yn helpu i wella gwasanaethau drwy arolygu allanol, gwerthuso perfformiad a chynlluniau penodol.

**David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sefydlu gwasanaeth llawdriniaeth ar gyfer gordewdra yn y De? (WAQ46876)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd mae Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn darparu gwasanaeth llawdriniaeth ar gyfer gordewdra i'r De.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, Comisiwn Iechyd Cymru a'r byrddau iechyd lleol yn dal i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y targedau amseroedd aros yn Abertawe yn cael eu cyrraedd a bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn effeithiol.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu ffisigwyr gordewdra arbenigol yng Nghymru? (WAQ46877)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd mae nifer o ffisigwyr yn gwasanaethu poblogaeth Cymru sydd â diddordeb arbennig yn y rheolaeth feddygol dros ordewdra afiach, yn cynnwys meddygon sydd â chefndir mewn endocrinoleg, diabetes ac asesu risg cardiofasgwlaidd. Mae yna hefyd feddygon sy'n gweithio mewn timau amlddisgyblaethol i gynorthwyo llawfeddygon gordewdra arbenigol.

Mae'r rheolaeth feddygol dros ordewdra yn is-arbenigedd sy'n datblygu. Mae'n debygol y bydd o leiaf

un o’r gwasanaethau arbenigol presennol yn y De yn ehangu i weithredu fel gwasanaeth lefel drydyddol i gynnig gofal i gleifion sy’n gwrthsefyll triniaeth h.y. y cleifion hynny sydd wedi methu o dan fesurau ataliol cynnar yn cynnwys rhaglenni rheoli pwysau safonol wedi’u seilio ar gyffuriau, maeth ac ymarfer.

Mae gordewdra yn glefyd cronig ac mae gofyn cynllunio ar y cyd â Choleg Brenhinol y Ffisigwyr i ddatblygu diddordebau arbennig mewn meddygaeth i reoli clefydau cronig.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganllawiau NICE sy’n berthnasol i lawdriniaethau ar gyfer gordewdra? (WAQ46882)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ganllawiau arfarniad technoleg iechyd ar ddefnyddio llawdriniaeth ar gyfer gordewdra afiach (llawdriniaeth fariatrig) ym mis Gorffennaf 2002. Mae’r canllawiau o blaid defnyddio llawdriniaeth fel opsiwn trin i gleifion sy’n cwrdd â meini prawf caeth. Oherwydd y diffyg capasiti i ddarparu llawfeddygaeth fariatrig yn y GIG, cafodd y canllawiau arfarniad technoleg iechyd eu heithrio rhag gofyniad yr Adran iechyd i weithredu o fewn tri mis i gyhoeddi canllawiau.

Mae NICE wrthi ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau clinigol ar gyfer yr holl wasanaethau gordewdra, a fydd yn cynnwys adran yn ymwneud â llawfeddygaeth fariatrig. Mae’r canllawiau i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2007.

**Laura Anne Jones:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n helpu i atal marwolaethau o thrombosis gwythiennau dwfn yn ysbytai Cymru? (WAQ46913)

**Brian Gibbons:** Mae thrombo-emboledd gwythiennol yn gyflwr cyffredin sy’n gallu bod yn ddifrifol ac yn aml mae’n dilyn ar ôl thrombosis gwythiennau dwfn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymwybyddiaeth broffesiynol o’r cyflwr hwn a sut mae ei atal. Ar hyn o bryd mae’n ystyried comisiynu archwiliad cenedlaethol i edrych ar atal, diagnosio a thrin thrombo-emboledd gwythiennol.

**Laura Anne Jones:** Beth yw’r ffigurau rhanbarthol ar gyfer nifer y marwolaethau mewn ysbytai yng Nghymru a oedd yn gysylltiedig â thrombosis gwythiennau dwfn? (WAQ46914)

**Laura Anne Jones:** Beth yw’r ffigur ar gyfer cyfanswm y marwolaethau mewn ysbytai yng Nghymru a oedd yn gysylltiedig â thrombosis gwythiennau dwfn? (WAQ46915)

**Brian Gibbons:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod:

**Nifer y marwolaethau oherwydd thrombosis gwythiennau dwfn mewn ysbytai yng Nghymru**

| **Rhanbarth** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 92 | 81 | 84 | 85 | 84 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 200 | 184 | 195 | 169 | 164 |
| De-ddwyrain Cymru | 194 | 150 | 151 | 149 | 150 |
| Cymru | 486 | 415 | 430 | 403 | 398 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata cyfnodau gofal cleifion Cymru.

(a) Achos marwolaeth wedi’i ddiffinio gan ddefnyddio’r Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, y Degfed Adolygiad (ICD-10) codau I26, I80.1, I80.2, I80.3, I80.9, ac I82.9.

**Janet Ryder:** Sut y penderfynir ar y gyllideb ar gyfer ALAS (Artificial Limb and Alliance Service) a pha asesiadau a gynhelir o angen er mwyn penderfynu ar y gyllideb honno? (WAQ46917)

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithio gyda’r ymddiriedolaethau darparu i gytuno ar gyllideb ar gyfer eu gwasanaethau ALAS. Megis gyda gwasanaethau eraill, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu’r gwasanaethau hyn i adlewyrchu’r blaenoriaethau comisiynu drwyddynt draw, yr adnoddau sydd ar gael, y pwysau ar ALAS a’r blaenoriaethau.

Mae chwe elfen wasanaeth yn rhan o ALAS, sef gwasanaethau cadeiriau olwyn, gwasanaethau aelodau artiffisial, gwasanaethau rheolaeth amgylcheddol, gwasanaethau llygaid artiffisial, gwasanaethau pensiynwyr rhyfel a gwasanaethau cerbydau tair olwyn, sy’n golygu bod ALAS yn wahanol iawn i ddarparwyr gwasanaethau anabledd eraill.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithio gyda ALAS i asesu’r pwysau ar y gwasanaeth a’r blaenoriaethau ac i gytuno ar gyllidebau ar gyfer y dyfodol yng ngoleuni blaenoriaethau’r comisiwn. Er enghraifft, mae ALAS gogledd Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymarferiad i fodelu’r galw/ cyflenwad, gan edrych ar gadeiriau olwyn. Mae Comisiwn Iechyd Cymru mewn trafodaeth â’r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ynglyn â phrosiect penodol i asesu’r angen am gadeiriau olwyn.

**Janet Ryder:** Pa dargedau a osodir ar gyfer ALAS (Artificial Limb and Alliance Service), ar beth y’u seilir ac a yw’r targed aros o 28 wythnos yn berthnasol? (WAQ46919)

**Brian Gibbons:** I wasanaethau cadeiriau olwyn, mae targed bod 95 y cant o gadeiriau olwyn safonol i gael eu darparu o fewn 21 diwrnod i’r achos ddod i law’r gwasanaeth. Darperir 15,000 yn fras o gadeiriau olwyn ar draws Cymru bob blwyddyn ac mae tua 12,000 o’r rhain yn gadeiriau olwyn safonol. Nid oes targedau penodol i’r gwasanaethau ALAS eraill.

**Jonathan Morgan:** Faint y mae Bwrdd Iechyd Lleol Conwy yn ei dalu am ei gontract deintyddol ag Oasis Dental Care Cyf? (WAQ46920)

**Brian Gibbons:** Mater i Fwrdd Iechyd Lleol Conwy yw hynny. Mae cost lawn unrhyw gontract yn cael ei thrafod rhwng y partïon dan sylw ar ôl iddynt ddod i gytundeb. Darparodd y Cynulliad Cenedlaethol rywfaint o gymorth ariannol tuag at y costau sefydlu. Mae’r byrddau iechyd lleol wedi cael eu dyraniad cyffredinol ar gyfer gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol am 2006-07/

Mae’r buddsoddiad ychwanegol o £30 miliwn yn neintyddiaeth y GIG o 2006-07 yn cynorthwyo’r BILlau yn eu gwaith comisiynu ac mae’n rhoi mwy o reolaeth iddynt dros y math a’r lefel o wasanaethau deintyddol i ddiwallu’r angen yn lleol.